



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

**REALITI ESTYNEDIG, HANES CYNHWYSOL:**

**Defnyddio Technoleg Realiti Estynedig i Archwilio Hanesion Campws Amrywiol**

Paul Quigley, Jessica Taylor, Alex O'Dea, Kenny Barnes, Emily Humes - Athro Cyswllt, Athro Cynorthwyol, Israddedigion – [Virginia Tech](#)



Wrth baratoi ar gyfer pen-blwydd y brifysgol yn 150 oed yn 2022, mae tîm Hanes Delweddu Virginia Tech yn arbrofi â defnyddio technolegau creadigol i ymchwilio i hanes a'i gyflwyno mewn ffyrdd newydd. Mae ein tîm o staff a myfyrwyr yn dwyn ynghyd gwestiynau a dulliau ymchwil o feysydd Cyfrifiadureg, Hanes, Llyfrgelloedd, y Celfyddydau Gweledol, ac Addysg.


[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8<sup>ed</sup> – 12<sup>ed</sup> Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

Yn y cyflwyniad hwn byddwn yn edrych ar fanteision a chyfyngiadau defnyddio technoleg i ddod â hanesion cudd yn fyw, gan ganolbwyntio ar Solitude, ar ystâd gaethweision teulu Preston, ar ôl y Rhyfel Cartref. Solitude yw'r adeilad hynaf ar gampws Virginia Tech. Defnyddiwn dechnoleg Realiti Estynedig (Realiti Ychwanegol + Realiti Rhithwir) wisgadwy yn y meysydd canlynol: cyfweiliadau sgrin-werdd â disgynyddion caethweision, teithiau tywys rhithiol, dogfennau o'r 19eg ganrif, ffotograffau hanesyddol, ac ail-greadau 3D o adeiladau. Mae'r technegau hyn yn caniatáu i ymwelwyr "weld" darluniadau o'r gorffennol sydd wedi'u dinistrio neu eu mygu; maen nhw'n ein galluogi i adrodd hanes mewn ffyrdd mwy deniadol a chyflawn. Ond soniwn hefyd am gyfyngiadau'r dechnoleg wrth ymdrin â rhai mathau o hanesion sydd wedi'u dogfennu'n wael a lle mae prinder deunydd clyweled apelgar.



Byddwn hefyd yn trafod yn fwy cyffredinol nodweddion storïa penodol Realiti Estynedig. Yn wahanol i'r profiad naratif llinol mae tuedd i lyfrau hanes ei gynnig, mae Realiti Estynedig yn ei gwneud hi'n bosibl i gyflwyno llawer o storïau, o wahanol gyfnodau amser, sy'n ymdrin â gwahanol gymeriadau a themâu hanesyddol – a'r cyfan yn yr un lle. Mae hefyd yn cynnig fformat mwy rhyngweithiol sy'n caniatáu i ymwelwyr ddewis pa agweddau ar bwnc yr hoffent ymchwilio iddynt, ac yn rhoi cyfle iddynt estyn eu profiad drwy dyrchu'n ddyfnach i ddogfennau a ffotograffau hanesyddol a gwyllo fideos hirach. Fe fyddwn ni'n rhoi sylw hefyd i gyfyngiadau storïa Realiti Estynedig, yn ogystal â'r cyfleoedd, gan drafod yr her o ymdrin â themâu pwysig mewn amser byr. Sonnir am gyfyngiadau technolegol eraill hefyd. Yn fyr, mae Realiti Estynedig yn cau rhai posibiliadau storïa i lawr yr un pryd ag y mae'n agor y drws i eraill.



## Bywgraffiad

Cyfarwyddwr y Virginia Center for Civil War Studies ac Athro Cyswilt Hanes y Rhyfel Cartref James I. Robertson, Jr. yn Adran Hanes Virginia Tech yw Paul Quigley.

Cyfarwyddwr Hanes Cyhoeddus ac Athro Hanes Cynorthwyol yn Virginia Tech yw Jessica Taylor.

Myfyriwr israddedig yn Virginia Tech sy'n astudio hanes yn brif bwnc yw Alex O'Dea.

Myfyriwr israddedig a chynorthwydd addysgu sy'n astudio hanes a chymdeithas yn Virginia Tech yw Kenny Barnes.

Myfyrwraig israddedig yn Virginia Tech sy'n astudio hanes yn brif bwnc yw Emily Humes.